

Adroddiad Blynyddol y Gymraeg

2020-2021

sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Cyflwyniad | 1 |
| Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | 3 |
| Astudiaeth Achos 1 | 4 |
| Astudiaeth Achos 2 | 6 |
| Safonau Gweithredu | 9 |
| Astudiaeth Achos 3 | 11 |
| Safonau Hybu | 14 |
| Astudiaeth Achos 4 | 15 |
| Astudiaeth Achos 5 | 18 |
| Safonau Llunio Polisi | 20 |
| Astudiaeth Achos 6 | 21 |
| Cwynion a dderbyniwyd | 23 |
| Dysgu Cymraeg a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | 26 |
| Sgiliau Iaith | 28 |

Cyflwyniad

Dyma Adroddiad Blynyddol o waith Cyngor Sir Gâr ar gyfer 2020/21. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y bumed flwyddyn o weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg a honno'n flwyddyn wahanol iawn i'r arfer. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r gwahaniaeth a ddaeth o ganlyniad i Covid 19. Rydym wedi adrodd ar y modd yr ymatebwyd i'r pandemig mewn perthynas â'r Gymraeg a'r modd y parhawyd i gydymffurfio â'r Safonau yn wyneb ffordd gwbl newydd o weithio gyda nifer helaeth o staff y Cyngor Sir yn trosglwyddo i weithio o gartref a hynny am gyfnod maith.

Rydym wedi canolbwyntio, yn yr adroddiad hwn, ar yr hyn rydyn ni wedi ei gyflawni er gwaetha'r *rhwystrau* ymarferol a ddaeth o ganlyniad i'r cyfnodau clo, ond hefyd wedi cynnwys astudiaethau achos i dynnu sylw at y prosiectau newydd a weithredwyd o'r *cyfleoedd* newydd a ddaeth o ganlyniad i'r pandemig. Rydym yn falch iawn o'r ffaith ein bod wedi parhau i weithredu'n ddwyieithog a hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydol y cyfnod clo ac wedi cefnogi ein partneriaid i wneud hynny yn ogystal. Mae'r Mentrau iaith er enghraifft, a'n Tîm Datblygu'r Gymraeg wedi creu deunyddiau newydd a chyfleoedd arloesol digidol di-ri i annog defnydd o'r Gymraeg. Gwnaed y mwyaf hefyd o'r cyfleoedd newydd a ddaeth i'n rhan i ddysgu Cymraeg i'n staff ar lein a gwnaed yn siŵr eu bod yn medru elwa o'r amgylchiadau gweithio newydd i ddilyn cyrsiau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Cafodd y trosglwyddo o weithio mewn swyddfeydd i weithio o gartref ei lyfnhau'n sylweddol gan ledaeniad cyflym a thrwyadl y platfform *Microsoft Teams* o fewn y Cyngor ac fe gymerwyd pob cyfle posib i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ar y cyfrwng hwn. Mae ymdrechion mawr wedi eu gwneud yn ogystal i greu cyfleoedd i staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, yn rhithiol, ond mae'r lleihad yn y cyswllt wyneb yn wyneb yn parhau yn ofid i ni yn hyn o beth ac erys llawer o waith i'w wneud yn y maes hwn i'r dyfodol.

Fel ar draws holl adrannau'r Cyngor sir, cafodd rhai o'r staff sydd fel arfer yn gweithio'n benodol ar hyrwyddo'r Gymraeg eu trosglwyddo i gefnogi ymdrechion i gefnogi ein trigolion bregus yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Ni chafodd y seibiant hwn yn y gwaith ar y Gymraeg effaith ar ein gwasanaethau ac mae hyn yn brawf o'n gwytnwch i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws ein hadrannau oll.

Wrth i'r cyfnodau clo ddirwyn i ben, ac wrth ailgynllunio gwasanaethau, rhoddwyd y Gymraeg yn ganolog i gynllunio strategol ar draws holl feysydd gwaith y Cyngor. Rhoddwyd atebolrwydd ar y lefel uchaf i gyfarwyddwyr a rheolwyr i ystyried effaith ail-gyflwyno gwasanaethau ar y Gymraeg.

Wrth edrych ymlaen at 2021/22, a'r flwyddyn ar ôl hynny, edrychwn ymlaen at ddatblygu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg gwell i'n prentisiaid. Gobeithiwn wneud gwaith pellach i gynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg ac fe fyddwn hefyd yn gweithio'n galed i fesur effaith ein Strategaeth Hybu a Lluo Strategaeth newydd ar gyfer y bum llynedd nesaf, a hynny gan gymryd i ystyriaeth canlyniadau Cyfrifiad 2021. Gobeithiwn fedru parhau i ddatblygu ein gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Cyngor ac o fewn y sir i gyd gan gymryd hyder o'r newydd yn ein gallu i weithredu'n ddwyieithog yn wyneb unrhyw rwystredaw i'n rhan.

Cynhorydd Peter Hughes-Griffiths

Aelod Bwrdd Gweithredol

Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Rydym yn hynod o falch o'r ffaith i ni lwyddo i barhau i gyfathrebu'n gwbl ddwyieithog yn ystod y cyfnod o newid mawr a gyflwynwyd gan y pandemig. Er gwaetha'r newidiadau sylweddol yn y gwasanaethau roedd angen i ni flaenoriaethu a'r ffaith bod y cyfnodau clo'n golygu bod ein staff yn gweithio'n hyblyg, llwyddasom i gyfathrebu'n gwbl ddwyieithog ar bob un o'n platfformau cyfathrebu. Cyrhaeddwyd yr un safon pan ddaeth argyfyngau i'n rhan yn ystod y cyfnod hwn gan gynnwys y tywydd eithafol a thân yn un o'n Canolfannau Gwastraff.

Yn ein hymdrechion cyson i gyrraedd y safonau gorau posib o safbwynt darpariaeth ddwyieithog, cychwynwyd arfer newydd ar ein platfform Facebook o osod sylw o dan pob postiad Saesneg yn darparu doler i'r postiad Cymraeg. Mae hyn yn fodd o adfer y sefyllfa sydd y tu allan i'n rheolaeth o ran pa bostiad sy'n ymddangos i rywun yn gyntaf ac yn golygu y gall y cwsmer wneud dewis iaith ar unwaith wrth weld y neges ym mha bynnag iaith.

Gwnaed ymdrechion clodwiw i barhau i gynnal cyfarfodydd y Cyngor yn ddwyieithog er gwaetha'r ffaith nad oedd modd defnyddio adeilad y Siambr. Datblygwyd system o ddefnyddio ffonau symudol ar gyfer darparu cyfieithiad i Gyngorwyr Di-Gymraeg ar blatfform *Teams* tra bod platfform *Zoom* yn ormod o beryg diogelwch ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol. Wrth i'r sefyllfa newid o safbwynt diogelwch y platfform hwnnw, symudwyd cyfarfodydd y Cyngor ato gan ei fod yn darparu'r gallu i gynnal cyfieithu ar y pryd yn uniongyrchol, gan ei wneud yn haws i ddarparu'r gwasanaeth.

Gweinyddwyd y grantiau busnes newydd o ganlyniad i Covid-19 yn ddwyieithog ac fe dderbyniwyd ambell i gais drwy gyfrwng y Gymraeg. Gweinyddwyd y ceisiadau hynny yr un mor gyflym a'r rhai cyfatebol, Saesneg, gyda'r system ddigidol yn weithredol yn gwbl ddwyieithog.

Yn ogystal â pharhau i ddarparu ein gwasanaethau yn unol â'r Safonau yn wyneb y pandemig, fe ddefnyddiwyd y cyfnod clo fel cyfle i gyflwyno gwell gwasanaethau dwyieithog a rhai newydd hefyd. Cyflwynwyd system archebu lle yn y Canolfannau Ailgylchu er mwyn sicrhau pellter cymdeithasol. Lluniwyd y system yn gwbl ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf ac mae'r gwasanaeth Cymraeg yn dal i gael ei ddefnyddio'n gyson. Aildrefnwyd a newidiwyd diwyg ein tudalennau Cymraeg (gw. astudiaeth achos 1) a defnyddiwyd y sefyllfa newydd i gyflwyno gwasanaeth newydd sbon o gyngherddau Cymraeg Cyfoes ar-lein o'n Theatrau (gw. Astudiaeth achos 2).


Astudiaeth Achos 1: Gwefan y Gymraeg

Cefndir.




Wrth i'r pandemig ein taflu fwyfwy i mewn i fyd technolegol, teimlwyd ei fod bellach yn flaenoriaeth i ni allu rhoi'r wybodaeth a'r ymwybyddiaeth orau i drigolion y sir am y Gymraeg, yn enwedig i rieni di-Gymraeg gyda phlant mewn addysg Gymraeg, a hynny'n gyflawn yn ddigidol. Gyda'r cyfleoedd i ddsbarthu deunyddiau hyrwyddo'r Gymraeg yn uniongyrchol i bobl gyda chopïau caled ar stop, roedd angen sicrhau mynediad i bopeth Cymraeg ar ein gwefan corfforaethol.

Datrysiad.

Ailwampwyd ein tudalen Gymraeg ar wefan gorfforaethol y Cyngor Sir felly er mwyn trosglwyddo negeseuon gadarnhaol am y Gymraeg i'r trigolion. Casglwyd cyngor a chymorth am y Gymraeg at ei gilydd mewn un man a sicrhau ei fod yn gwbl hygyrch gyda dolenni at elfennau eraill o'r wefan oedd yn gysylltiedig â'r Gymraeg i greu llwybr di-dor i'r defnyddiwr.



Roedd gosod lleoliad ar ein gwefan i'n llyfrynnau hyrwyddo ar gyfer mewnfudwyr, rheini a busnesau'n golygu bod modd i ni hyrwyddo'r taflenni drwy ddsbarthu dolen ato ar ein gwefan er mwyn lleihau'r effaith negyddol o beidio allu dosbarthu'r copïau caled.

| | | |
|--|--|---|
|  | <p>Bod yn Ddwieithog... yn Sir Gâr Being Bilingual... in Carmarthenshire</p>  |  |
| <p>Croeso i Sir Gaerfyrddin - Croeso i'r Gymraeg Darganfyddwch pa mor bwysig yw'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, yn ogystal â darganfod i ble y gallwch fynd i helpu i wella neu i ddefnyddio'ch Cymraeg yn ein sir.</p> <p>Croeso i Sir Gaerfyrddin - Croeso i'r Gymraeg</p> | <p>Bod yn Ddwieithog yn Sir Gaerfyrddin Gall pob plentyn yn Sir Gaerfyrddin ddod yn ddwyieithog drwy fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg yn y Sir. Dyma sut...</p> <p>ADDYSG AC YSGOLION</p> | <p>Y Gymraeg mewn Busnes Lawrlwythwch ein canllaw i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich busnes.</p> <p>Y Gymraeg mewn Busnes</p> |

Canlyniad.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nefnydd y tudalennau gwe gyda nifer y sesiynau ar y tudalennau hyn eleni yn fwy na dyblu o gymharu â'r un cyfnod llynedd.

I'r dyfodol.

Crëwyd ardal newydd o'r enw 'proffil laith y sir' gydag adroddiad ar y Gymraeg yn sir Gâr ynddi, a'r bwriad yw i boblogeiddio'r ardal hon wrth i wybodaeth y Cyfrifiad 2021 gael ei gyhoeddi. Bydd gosod gwybodaeth hygyrch yn y man yma'n hwyluso ein gwaith codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo pan ddaw'r wybodaeth drwedd yn ogystal.

Astudiaeth Achos 2: Gigs Cymraeg Theatrau Sir Gâr


Cefndir

Yn amlwg, roedd y cyfnod clo yn gorfodi cau pob math o weithgarwch celfyddydol, byw i lawr yn sydyn ac am gyfnod hir. Caeodd drysau ein theatrau ar unwaith. Golygai hyn wacter mewn cynnwys diwylliannol a chymdeithasol, a hynny yn dilyn datblygiadau mawr yn ein darpariaeth a chynnydd aruthrol yn ein cynnwys a'n cynulleidfa oedd Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Datrysiad


Perodd y cyfnod clo gyfle i weithredu ar lein mewn modd arloesol a fyddai nid yn unig yn cynnig parhad i gynulleidfa oedd y celfyddydau mewn cyfnod lle nad oedd modd mynychu dim digwyddiadau byw, ond hefyd yn cefnogi llesiant trigolion sir Gâr yn ystod y cyfnod anodd. Penderfynwyd cynnal gigs byw Cymraeg a fyddai'n apelio at gynulleidfa ifanc ac yn darparu gwaith prin i fandiau Cymraeg ifanc ar yr un pryd.

Lluniwyd frand newydd a buddsoddwyd mewn cyfres o gigs byw a ryddhawyd yn fisol ar YouTube a Facebook. Roeddent yn cael eu recordio o flaen llaw ac yn cael eu rhyddhau fel petai'n fyw.



Gwnaethom yn siŵr bod safonau'r cynrychiadau yn uchel trwy ddefnyddio criw proffesiynol er mwyn ffilmio a golygu, ac roedd yr adborth yn adlewyrchu hwn i gyd.

Gwnaed gwaith marchnata trylwyr yn fewnol i staff y Cyngor sir yn ogystal ag yn allanol gan sicrhau ei fod yn cyflwyno'r cyfle gorau i drigolion glywed y Gymraeg ac ymgysylltu gyda cherddoriaeth Gymraeg o safon uchel.



GWILYM

Nos Wener yma, bydd Theatr y Ffwrnes yn croesawu pum bachgen o Ynys Môn a Gwynedd i lwyfan yn Llanelli – Gwilym!

Byddant yn perfformio'u caneuon poblogaidd megis Fyny Ac Yn Ôl, Cwin a Gwalia a llawer mwy! Mae Gwilym yn boblogaidd iawn mewn gwyliau ledled Cymru ac mae eu 'indie-pop' bob amser yn plesio'r gynulleidfa.

Dyma'ch cyfle i fwynhau profiad y gig o'ch cartref. Bydd y sioe'n cael ei ffynio ar Facebook a Youtube am 8pm a gallwch ei gwyllo am ddim.

Cofrestrwch ar wefan y Theatr i gael eich tocyn am ddim

ALFFA



Bydd y band roc a biws Cymraeg, Alffa, yn dod â'u brand unigryw o gerddoriaeth i lwyfan y Ffwrnes ar nos Wener, 4 Rhagfyr fel rhan o gyfres o sioeau digidol, Yn Fyw o'r Ffwrnes gan Theatrau Sir Gâr.

Gall cynulleidfaoedd wylio gartref am ddim gan y bydd y gig yn cael ei ffynio ar draws sawl platform ar-lein gan gynnwys YouTube, AM a Facebook.

Cofrestrwch ar wefan y Theatr i gael eich tocyn am ddim i wylio gig Alffa

Canlyniad

Cafwyd ymateb gwych i'r gigs yma. Roedd y ffigurau gwyllo'n hynod o uchel.

| | | Gwylwyr Youtube | Gwylwyr Facebook | Holl wylwyr |
|------------|---------------------------|--------------------|---------------------|--------------|
| 04/12/2020 | Alffa yn Fyw o'r Ffwrnes | 189 | 3566 | 3755 |
| 18/12/2020 | Gwilym yn Fyw o'r Ffwrnes | 423 | 2894 | 3317 |
| 22/01/2021 | Mellit yn Fyw o'r ffwrnes | 265 | 944 | 1209 |
| 05/02/2021 | Eadyth yn fyw o'r Ffwrnes | 76 | 1920 | 1996 |
| | Holl Ddigwyddiadau | 953 | 9324 | 10277 |

Roedd yr adborth yn wych - y sylwadau ar YouTube a Facebook, pawb wedi mwynhau ac yn colli gigiau fyw. Cafwyd sylw ar raglen Heno, a oedd yn gyfle gwych i hybu'r digwyddiadau ac i dynnu sylw at yr hyn oeddem ni'n ei wneud.

I'r Dyfodol

Mae'n wir fod y gigs yma wedi cyrraedd cynulleidfa llawer mwy eang nac y byddent wedi gwneud yn fyw, ac mae hyn yn rywbeth i'w gofio. Mae'n rhaid cydnabod yn ogystal, fodd bynnag, nad oedd incwm ynghlwm wrth y gyfres hon o gigs ac felly nid yw'n gwbl gynaliadwy i'r dyfodol. Mae angen ystyried i ba raddau byddai pobl yn dal i wylio gigs ar lein unwaith y bydd yn bosib i fynd nol i ddigwyddiadau byw, ac mae'n bwysig hefyd cofio fod profiad byw yn dod â dimensiwn ychwanegol o gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal. Fodd bynnag, bydd potensial ar gyfer ymgysylltu digidol pellach mewn tirwedd ôl-pandemig, a byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o ddigwyddiadau hybrid a allai gynnwys cynulleidfaoedd byw a chynnig digidol gyda'r opsiwn i wylio gartref. Gallai hyn helpu i

wneud y mwyaf o gynulleidfaoedd (yn enwedig wrth i ni geisio adfer y rhaglen o dan gyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol). Byddwn hefyd yn ystyried a oes modd gwneud defnydd pellach o'r deunyddiau a recordiwyd er mwyn codi ymwybyddiaeth bobl ifanc o gerddoriaeth Cymraeg.

Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu

Rydym wedi parhau i gyfathrebu'n fewnol gyda staff yn gwbl ddwyieithog drwy gydol y pandemig gydag byst a chylchlythyron dwyieithog o'r Prif weithredwr yn diweddarau staff ar sefyllfa'r pandemig. Cynhaliwyd arolwg cynhwysfawr o staff oedd yn barod i wirfoddoli mewn meysydd newydd am gyfnod ac fe'u cynhaliwyd, ynghyd â'r cyfweiliadau ffôn, gydag opsiwn iaith cyfatebol yn Gymraeg a Saesneg. Cynhaliwyd arolwg ynglŷn a sefyllfaoedd gweithio'n hyblyg yn ddwyieithog hefyd.

Yn ogystal â pharhau i weithredu'n ddwyieithog gyda'n staff, gwnaed ymdrechion penodol i gadw golwg ar ddefnydd y Gymraeg y staff yn wyneb y pandemig. Yn hytrach na chynnal arolwg ein hunain, cefnogwyd a hyrwyddwyd arolwg ARFer gan Brifysgol Bangor er mwyn cael gwybodaeth ddefnyddiol ar y newid mewn arferion iaith staff wrth weithio o gartref.

Y Gymraeg a gweithio gartref

Tybed ydych chi wedi sylwi os ydych chi'n siarad mwy neu lai o Gymraeg ers i chi ddechrau gweithio o adref?

Mae Prifysgol Bangor yn cynnal ymchwil ar sut mae gweithio o adref wedi effeithio ar ddefnydd staff o'r Gymraeg.

A fydech gystal â llenwi'r holiadur yma mewn os gwelwch yn dda?

Byddai cael darlun o effaith Covid ar ein defnydd o'r Gymraeg yn ein cynorthwyo i ymateb ar sail tystiolaeth. Ond yn y cyfamser, os oes yna rywbeth hoffech chi i ni wneud i gynyddu eich defnydd o'r Gymraeg, rhowch wybod i iaithgymraeg@sirgar.gov.uk

Llenwch yr holiadur

O ganlyniad i'n gwaith cyfathrebu mewn ôl ar y mater hwn, roedd 66 aelod o staff wedi cyfrannu i arolwg ARFer.

Wrth drosglwyddo i weithio ar *Teams*, cadwyd ar ben y nodweddion oedd yn hwyluso gweithio drwy'r Gymraeg ac ailwampwyd y Canllaw 'Y Gymraeg a'r Cyfrifiadur' i gynnwys cyfieithu peirianyddol Microsoft yn ogystal â'r botwm cyfieithu yn y 'sgwrs' yn *Teams*. Hyrwyddwyd y cyngor newydd yng nghylchlythyron staff y Cyngor nifer o weithiau er mwyn annog defnydd y Gymraeg ar y cyfrifiadur.



Ysgrifennu yn Gymraeg gyda'ch Cyfrifiadur

Gallwn ddefnyddio technoleg i'n helpu i ysgrifennu yn Gymraeg yn ein gwaith. Mae modd gwirio sillafu yn Gymraeg. Mae geiriaduron ar gael ar-lein ac mae templedi y gallwn eu rhoi ar waith i'n helpu i sicrhau bod pethau'n gywir.

Dyma sut...

Meithrin mwy o hyder i ysgrifennu yn Gymraeg

Mae nifer o offer ar gael ar y cyfrifiadur sy'n gallu eich helpu i ddod yn fwy hyderus i ysgrifennu yn Gymraeg.

- Oeddech chi'n gwybod bod gwirydd sillafu Gymraeg?
- Ydych chi'n gwybod y ffordd hawsaf o roi 'w' ar lythren?
- Oeddech chi'n gwybod bod botwm cyfieithu ar Teams sy'n golygu y gallwch ddeall negeseuon Gymraeg eich cydweithwyr?

Mae cyfarwyddiadau newydd ar y fewnwyd sy'n gallu dysgu hyn a mwy i chi.

Ewch i [Ysgrifennu'n Gymraeg a'ch Cyfrifiadur](#) a byddwch yn gweld sut i newid eich rhyngwyneb i'r Gymraeg, sut i ddefnyddio Microsoft Translate a llawer mwy. Os hoffech gael fersiwn pdf neu ragor o gymorth, anfonwch e-bost at iaithgymraeg@sirgar.gov.uk

Gwnaed camau breision i uwch oleuo sgiliau iaith staff ar ein systemau mewnol er mwyn annog defnydd y Gymraeg yn fewnol. Llwyddwyd cynnwys y swigen oren ar broffil staff sydd â sgiliau o lefel 3 ac uwch sydd bellach yn ymddangos ar *Teams* ac ar gofnod e-bost, ac mae gwaith yn parhau i weithredu'r logo ar draws yr holl Gyngor.

Iaith i Gwaith



Yn yr un wythnos ag y mae logo cenedlaethol iaith Gwaith (swigen oren) yn dathlu ei ben-blwydd yn 15 oed (ar 18 Tachwedd), rydym yn lansio ffordd newydd o'ch helpu i weld yn hawdd a yw aelod o staff yn siarad Gymraeg.

Bydd swigen oren newydd yn ymddangos yn awtomatig ar broffiliau'r staff sydd â sgiliau Gymraeg lefel 3 ac uwch. Caiff hyn ei wneud yn raddol dros yr wythnosau nesaf.

[Darlennwch fwy](#)

Yn olaf, gwnaed ymdrechion benodol yn ystod y pandemig i ymgysylltu gyda staff i'w hannog i ddefnyddio'i Gymraeg yn anffurfiol yn y gwaith. Cynhaliwyd cwis ar ddydd Miwsig Cymru ac fe gynhaliwyd digwyddiadau ar lein ar ddydd Gŵyl Dewi (gw. astudiaeth achos 3).

Astudiaeth Achos 3: Digwyddiad mewnol Gŵyl Dewi

Cefndir

Ar Fawrth 1af 2020, cynhaliwyd digwyddiad mawr yn Neuadd y Sir i ddathlu Gŵyl Dewi, gan ddefnyddio'r digwyddiad i gyfathrebu gyda staff y gweithle am y Safonau, am y cyfleoedd dysgu Cymraeg ac i hyrwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol. Dros y blynnyddoedd diwethaf, mae Arweinwyr Iaith ein hadran amgylchedd wedi cynnal digwyddiadau tebyg yn rhai o leoliadau eraill y Cyngor. Mae'r digwyddiadau yma'n rhoi cyfle i ni wneud gwaith cyfathrebu mewnol pwysig am y Gymraeg ond hefyd mae'n rhoi cyfle i staff i gyfathrebu'n Gymraeg mewn sefyllfa anffurfiol ac mae hynny'n cynyddu defnydd y Gymraeg yn y gweithle. Eleni, roeddwn dal mewn cyfnod clo pan ddaeth dydd Gŵyl Dewi felly doedd cynnal digwyddiad tebyg ddim yn bosibl.

Gan ddysgu o ymchwil Arfer ac o sgysiau anffurfiol, daeth yn amlwg bod llai o'n staff yn defnyddio'u Cymraeg ers dechrau gweithio'n hyblyg. Wrth i'r cyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg anffurfiol ar hap mewn lleoliadau cyffredin yn adeiladau'r Cyngor ddiplannu dros nos, ni roddodd ein sianeli gyfathrebu *Teams* gyfleoedd tebyg i staff i ddefnyddio'u Cymraeg. Tra bod staff oedd arfer gweithio yn Gymraeg yn dal i wneud hynny mewn cyfarfodydd ar *Teams*, mae rhan fwyaf o sefyllfaoedd gwaith yn cynnwys o leiaf un aelod o staff di-Gymraeg felly lleihaodd y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith yn fawr.

Datrysiad

Cynhaliwyd digwyddiadau Gŵyl Dewi ar lein gyda'r prif fwriad o roi cyfle i staff i glywed y Gymraeg yn anffurfiol mewn sefyllfaoedd amrywiol drwy gydol y dydd. Roedd modd cymryd rhan mewn un neu ddiwrnod cyfan o ddiwyddiadau. Roedd rhai o'r digwyddiadau'n rhai rhyngweithiol ac eraill yn cael eu recordio o flaen llaw a'u rhyddhau ar amser penodol.

Rhodddwyd yr amserlen ar 'screensavers' pawb ar y diwrnod.

Ymunwch â'n dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, 1 Mawrth

- 9:30 Cystadleuaeth ysgrifennu limerig y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths
- 10:00 Fideo dysgu sut i wneud Pice ar y Maen
- 11:00 Sesiwn llesiant gyda Canna Consulting
*Cynhelir y sesiwn hon yn Gymraeg
- 12:00 Canu'r anthem 'Hen Wlad Fy Nhadau'
- 12:15 Cwís byw gyda Marci G
*Cynhelir y sesiwn hon yn Gymraeg
- 1:30 Cyfle i gael rhagor o wybodaeth am ddysgu Cymraeg neu wella eich sgiliau Cymraeg
- 2:30 Sesiwn holi ac ateb gyda Jonny Clayton, pencampwr dartiau (recordiwyd ymlaen llaw)
- 4:00 Sesiwn Clocsfitt

Gallwch weld rhagor o wybodaeth a'r dolenni i ymuno â'r sesiynau ar [mewnrwyd/beth-sy-mlaen](#)

Join in with our St David's Day celebrations on March 1

- 9:30 Cllr Peter Hughes Griffiths' Limerick Competition
- 10:00 Welshcakes cookery demo video
- 11:00 Wellbeing session with Canna Consulting
Session will be held in Welsh
- 12:15 Live quiz with Marci G
*This session will be held in Welsh
- 1:30 Find out more about learning or improving your Welsh language skills
- 2:30 Q&A session with darts champ Jonny Clayton (pre recorded)
- 4:00 Clocsfitt session

More info and the links to join in can be found at [intranet/whats-on](#)

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi



Mae llawer yn digwydd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi heddiw (dydd Llun, 1 Mawrth) – felly dewch i gymryd rhan!

Mae llu o wahanol ddigwyddiadau'n cael eu cynnal drwy gydol y dydd ar Teams – rhai sesiynau byw ac eraill wedi recordio ymlaen llaw.

Does dim angen cofrestru ymlaen llaw, y cyfan sydd angen ei wneud yw clicio ar y dolenni isod ar gyfer pob sesiwn.

Gall y teulu cyfan gymryd rhan hefyd - bydd cystadleuaeth am y ffenestr sydd wedi'i haddurno orau ar thema Cymru. Anfonwch eich lluniau i iaithgymraeg@sirgar.gov.uk erbyn canol dydd, **ddydd Gwener, 5 Mawrth** i gael cyfle i ennill gwobr.

I gael rhagor o wybodaeth a'r holl ddoenni i ymuno â'r sesiynau ewch i'r tudalennau Beth Sydd Mlaen ar y [fewnrwyd](#).

Mae llu o wahanol ddigwyddiadau rhithwir yn cael eu cynnal o amgylch y sir yn y cyfnod cyn Dydd Gŵyl Dewi a thrwy gydol y dydd. I gael rhagor o wybodaeth ewch i dudalen [Facebook Darganfod Sir Gâr](#).

Rhannwyd y wybodaeth i gyd ar y fewnrwyd a thrwy gylch lythyr staff holl staff y Cyngor



Canlyniad

Yn dilyn y digwyddiad, gweinyddwyd holiadur SNAP i gasglu adborth ar y digwyddiad. Roedd modd deall sut roedd y staff wedi clywed am y digwyddiad a pha adrannau roeddent yn gweithio, yn ogystal a pha weithgareddau roedden nhw'n awgrymu i'r dyfodol. Nododd pawb, namyn un, y byddent yn hoffi gweld digwyddiadau tebyg y flwyddyn nesaf.

Yn dilyn y digwyddiad, rhoddwyd y fideos ar y fewnwyd gydag is-deitlau ac anogwyd pawb i wrando arnynt yn ei hamser eu hunain.

Staff yn ymuno â dathliadau Dydd Gŵyl Dewi

Ymunodd staff ar draws yr holl adrannau yn nathliadau Dydd Gŵyl Dewi ar-lein eleni, ar ddydd Llun (1 Mawrth).

Cafwyd sesiynau byw yn ystod y dydd gan gynnwys sesiwn lles, cwis byw a sesiwn ffitrwydd 'Clocsffit' yn ogystal â chyfle i ddarganfod mwy am sut y gall staff ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

Peidiwch â phoeni os gwnaethoch chi fethu unrhyw un o'r sesiynau, byddant ar gael i'w gwyllo eto'n fuan - daliwch ati i wirio **tudalennau gweithio'n ddwyieithog** ar y fewnwyd.

[Darllenwch fwy](#)

I'r dyfodol

Ers cynnal y digwyddiadau, mae adborth pellach wedi ein cyrraedd fod angen cyfleoedd anffurfiol ar gyfer clywed a defnyddio'r Gymraeg. Roedd y niferoedd a fynychodd y digwyddiadau'n llai na'r disgwyl eleni ond rydyn ni'n bwriadu ei osod yn sefydlog yng nghalendr y staff. Wrth iddynt ddod yn gyfarwydd gyda'r drefn, a'r drefn o fynychu digwyddiadau ar-lein, fe fydd mwy yn cymryd y cyfle i glywed ac i ymarfer eu Cymraeg yn y modd hwn.

Rydym wedi sefydlu trefn bellach o ddefnyddio 5 dyddiad ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yn y Cyngor, sef Santes Dwynwen, Dydd Miwsig Cymru, Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae a Diwrnod Mae gen i Hawl. Weithiau, byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol ac weithiau i'r cyhoedd ar y dyddiadau hyn, ac fe fydd yr Arweinwyr iaith yn allweddol yn eu cynnal.

Rhannwyd cwis ar gerddoriaeth Cymraeg gyda'r staff ar ddydd miwsig Cymru a defnyddiwyd y cyfle o dynnu sylw at ffyrdd o ganfod cerddoriaeth Gymraeg.

Cydymffurfio â'r Safonau Hybu

Rydym wedi parhau gyda'r gwaith o hybu'r Gymraeg yn sir Gâr er gwaetha'r newidiadau mawr ddaeth i waith y Cyngor yn dilyn y pandemig. Symudodd Cyfarfodydd Fforwm Strategol Y Gymraeg yn syth ar-lein. Yn wir, yn unol â dymuniadau'r Fforwm, cynhaliwyd 5 o gyfarfodydd yn hytrach na 4 gyda tua 20 sefydliad yn cael eu cynrychioli ym mhob cyfarfod. Trafodwyd y meysydd canlynol:

- Mehefin 2020 – Heriau hyrwyddo'r Gymraeg mewn cyfnod clo
- Medi 2020 – Prentisiaethau ac addysg ôl 16
- Tachwedd 2020 – Tai a gwerthiant ers y cyfnod clo
- Chwefror 2021 – Gwerthusiad o brosiect yr Ardaloedd Blaenoriaeth
- Mawrth 2021 – Cynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol

Law yn llaw â'r trafodaethau hyn, comisiynwyd *laith* i gasglu mesuryddion posib i greu fframwaith i fesur effaith y Strategaeth Hybu 5 mlynedd. Mae'r gwaith hwn wedi ei gwblhau ac er fod yna wendidau yn y dangosyddion a gwaith i'w wneud ar wella'r ffynonellau data i'w gwneud yn fwy dibynadwy, mae gennym fframwaith ar gyfer sefydlu gwaelodlin o ddata ar gyfer mesur effaith y Strategaeth Hybu a fydd yn gwella fesul pum mlynedd, gobeithio.

Defnyddiwyd y cyfnod clo cynnar i gydweithio'n agos gyda swyddogion *Helo Blod* i greu llyfryn newydd i hybu'r Gymraeg yn y byd busnes. Roedd y saib yng ngwaith wyneb-yn-wyneb y staff Helo Blod yn gyfle da i ni gydweithio ar yr adnodd hwn. (Gweler Astudiaeth achos 5).

Gwnaed gwaith pellach i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y Cyngor eleni, er mai yn electronig y digwyddodd hyn werth reswm. Rhyddhawyd datganiad i'r wasg ac ar ein gwefan ar ddiwrnod 'Mae gen i Hawl' ac mae staff Dechrau'n deg a Chanolfan Gwybodaeth i deuluoedd wedi parhau i ddosbarthu deunyddiau i hyrwyddo addysg Gymraeg a dwyieithog gyda deunyddiau hyrwyddo a luniwyd gennym, gan gynnwys 'Gwaith Cartref. Dim Problem' (Gweler Astudiaeth achos 6).

Astudiaeth Achos 4: Llyfryn hyrwyddo'r Gymraeg i Fusnesau

Cefndir.

Roedd gan Y Cyngor llyfryn i hyrwyddo'r Gymraeg ymysg busnesau a luniwyd yn 2015 mewn partneriaeth â'r Fforwm Strategol Sirol. Roedd y llyfryn bellach wedi dyddio. Yn dilyn y gwaith a wnaed gyda'r grŵp aml-asiantaeth ar hyrwyddo'r Gymraeg mewn busnesau, nodwyd bod angen adnodd mwy cyfredol i ddsbarthu ymysg ein cysylltiadau. Gan fod strwythur y cymorth i fusnesau bellach wedi ei sefydlu, gyda'r llywodraeth yn ariannu cefnogaeth i fusnesau bach a chanolig a Comisiynydd y Gymraeg yn darparu cefnogaeth i fusnesau mawr, roedd modd cynnig cymorth clir i fusnesau bellach ac roedd angen cyfathrebu hyn ar lefel sirol yn Sir Gâr.

Datrysiaid.

Cydweithiwyd gyda swyddogion Busnes Helo Blod i greu llyfryn electroneg newydd sbon a fyddai'n berthnasol ac o ddefnydd ymarferol i fusnesau'r sir. Penderfynwyd canolbwyntio ar y neges bod modd i bawb ddefnyddio Cymraeg yn eu busnes. Rhannwyd y llyfryn yn dair rhan i gyflwyno'r 'Camau bach ond pwysig', sy'n gydnabyddiaeth o ddwyieithrwydd y sir ac o fewn cyrraedd i bawb, adran i 'adeiladu' ar y camau bach ac yn olaf 'Gweithio'n gwbl ddwyieithog: y Camau Breision'.



Cynhwyswyd 2 astudiaeth achos leol o dan pob adran gan swyddogion helo Blod o fusnesau yr oeddynt wedi gweithio gyda nhw, i roi blas leol i'r cyfan ac i roi hyder i fusnesau bod gweithredu'n ddwyieithog yn bosib.


Astudiaeth Achos 5, Jin Talog

Cefndir:
Sefydlwyd y cwmni yn 2018 ac o'r cychwyn cyntaf roedd y perchnogion yn awyddus i gynnwys y Gymraeg yn eu busnes. Roedd y ddau wedi symud yn ôl i gefn gwlad o'r ddinas. Roedd un o'r perchnogion yn siarad Cymraeg iaith gyntaf a'r llall yn ddysgwr. Mae'r elfen gymunedol yn bwysig iawn iddynt fel busnes ac mae'r Gymraeg yn rhan fawr o hwnnw.

Camau:
Wrth adeiladu eu gwefan, label i'r cynnyrch ac unrhyw nwyddau marchnata, roeddant yn meddwl am y Gymraeg ar bob adeg ac felly wedi safedlu hunaniaeth Gymreig a Chymreig i'r busnes o'r cychwyn. Wrth i chi ymweld â gwefan y cwmni, mae ganddynt ddeisw i newid rhwng y ddwy iaith. Mae'r mwyafrif o'r postïadau ar eu cyfryngau cymdeithasol hwnnw hefyd yn ddwyieithog.

“ Mae defnyddio'r Gymraeg wedi bod yn sylfaenol i lwyddiant ein busnes cychwynol. Mae wedi rhoi hunaniaeth glir inni ac wedi ein helpu i sefyll allan. Cawsom ymateb anhygoel gan siaradwyr Cymraeg sy'n gwerthfawrogi cyfathrebu â ni yn y Gymraeg, ac maent wedi dod yn gwsmeriaid ffyddlon arbyn hyn. Mae defnyddio Cymraeg wedi helpu ni i gryfhau ein brand a'n safle mewn marchnad orlawn. ”

Llwyddiannau:
Mae Jin Talog wedi datblygu mewn adeg cymharol fyr i fod yn frand adnabyddus gan ennyn sylw cylchgrawn Vogue yn ystod cyfnod y Nadolig 2019. Maent hefyd wedi ennill amryw o wobrau am ei jin.



13

Rhoddwyd dolenni byw yn y ddogfen i gyfeirio busnesau yn uniongyrchol at y cymorth sydd ar gael a defnyddiwyd ymchwil ddiweddaraf Comisiynydd y Gymraeg, 'Y Gymraeg yn y fased Siopa' i ddwyn perswâd fod defnyddio'r Gymraeg o fudd i fusnesau yn sir Gâr.

Canlyniad.

Roedd creu'r adnodd electroneg newydd hon yn golygu bod modd i ni ddatblygu partneriaethau newydd a dylanwadu ar sefydliadau eraill i hyrwyddo'r Gymraeg mewn busnesau. O gynnig dogfen yn cynnwys yr holl gefnogaeth mewn un lle, roedd modd cydweithio gyda Menter a Busnes, Antur Cymru a Chanolfannau Siopa. Dosbarthwyd hefyd drwy gysylltiadau datblygu economaidd, safonau masnach y cyngor a thrwy gylchlythron busnesau a chynghorau tref a chymuned.

07/01/2021 Llywbrau amgen i'r farchnad ar Gymraeg mewn busnes / Alternative routes to market and the Welsh language in business

Subscribe Past Issues **Cymraeg mewn busnes** Translate

The Welsh language within your business



Pam defnyddio'r Gymraeg yn eich busnes?
Why use Welsh in your business?

Beth yw'r manteision o ddefnyddio'r Gymraeg?
What are the benefits of using the Welsh language?

Mae'r ddogfen hon yn cynnig yr atebion ac hefyd yn cyflwyno awgrymiadau er mwyn gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg.
This [document](#) provides the answers and also provides suggestions for making more use of the Welsh language.

Dyma gyhoeddiad sydd yn rhan o gefnogaeth Heio Blod a Comisiynydd y Gymraeg er mwyn cymorthwyo
This publication is part of the support of Heio Blod and the Welsh Language Commissioner to help businesses with bilingualism in

Nododd Swyddog Marchnata prosiect Cywain yr 'Anfonwyd at 860 o gyfeiriadau e-bost sy'n cynnwys cleientiaid Cywain a rhanddeiliaid yn cynnwys Llywodraeth Cymru' (7.1.2021). Dosbarthodd Menter a Busnes y llyfryn drwy e-bost i aelodau 'cyswllt ffermio' i gyd hefyd

Cafwyd cais gan Fenter Môn i ail-greu ein dogfen ac fe gytunom y gallent ddefnyddio'r holl ddeunyddiau oedd o ddefnydd iddynt ond eu bod yn cydnabod y Cyngor Sir fel ffynhonnell wreiddiol y deunyddiau.

I'r Dyfodol

Fe fyddwn yn archwilio'r posibilid o wneud gwaith pellach yn dosbarthu'r ddogfen hon gyda datblygiadau'r prosiectau datblygu economaidd y bydd y Cyngor Sir yn gweithredu yn ystod y cyfnod nesaf, fel prosiect 'Y Deg tref farchnad' . Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau ei fod o ddefnydd hefyd i'r prosiect LocalMotion yn nhref Caerfyrddin.

[Welsh \(llyw.cymru\)](http://Welsh (llyw.cymru))

Astudiaeth Achos 5: Gwaith Cartref. Dim Problem

Cefndir

Ar ddiwedd 2020, lluniwyd llyfryn a oedd a'i brif fwriad o leddfu gofidiau rhieni di-Gymraeg am fethu a helpu eu plant gyda gwaith cartref wrth iddynt fynychu addysg Gymraeg. Wedi gwaith ymgynghori, penderfynwyd greu fersiwn Gymraeg oedd ychydig yn wahanol, a fyddai'n rhoi cyngor i rieni ar sut i gynorthwyo plant gyda gwaith cartref ac yn eu hannog i ddefnyddio'u Cymraeg gyda'r plant yn y cartref. Llwyddwyd dosbarthu copïau caled o'r llyfryn cyn diwedd 2020 i benaethiaid ysgolion ond rhwystrodd y cyfnod clo unrhyw ddatblygiadau i ddsbarthu copïau caled a ninnau megis dechrau ar y gwaith.

Datrysiad

Roedd yn rhaid creu cynllun dosbarthu fersiynau electroneg o'r ddogfen a'i weithredu yn ystod y flwyddyn.

Gosodwyd y ddogfen ar dudalennau addysg y Cyngor Sir gan sicrhau dolen at fersiwn electroneg ar gyfer gohebu gyda sefydliadau'n haws. Fe'i osodwyd ar wefan a Facebook Gwasanaethau Gwybodaeth i deuluoedd yn ogystal. E-bostiwyd holl benaethiaid y sir i rannu fersiwn electroneg gyda nhw ac argymhell eu bod yn ei rannu gyda rhieni drwy ap yr ysgol cyn diwedd tymor yr haf. Atgoffwyd hwy eto drwy e-bost ar ddechrau Medi rhag ofn y byddai wedi mynd yn angof gyda threfniadau ail-agor ar ôl y cyfnod clo mawr.

Rhannwyd y ddogfen gyda phenaethiaid gwasanaethau plant y Cyngor a chyda swyddogion Meithrin a Cymraeg i Blant. Fe'i rannwyd gan y Tîm datblygu'r Gymraeg sydd hefyd yn gyfrifol am gefnogi hwyrddyfodiaid. Yn olaf, fe'i rannwyd i holl ddarparwyr gofal cofrestredig y sir.



Homework in Secondary School

Quote from a year 7 pupil...

"Parents CAN help with homework. Just talk to them in English about what you're doing, and then write it in Welsh!"

As young people mature, they may not want much help from parents but you can still show interest in their work even when the work becomes more specialised.

1. Ask the child to **explain** the task to you in English. Check any difficult vocabulary to make sure you understand each other properly.
2. Discuss the work in **English**.
3. Encourage the child to **translate** what was discussed back into Welsh. You can assist if needed using an online lexicon.
4. Encourage your child to check their answers using **Cysill online**.

Gwaith Cartref yn yr Uwchradd

1. Gofynnwch i'ch plentyn egluro'r dasg i chi yn Saesneg neu yn Gymraeg. Gwirwch unrhyw eirfa neu dermau anodd gyda'ch gilydd os oes angen gan ddefnyddio geiriaduron ar-lein neu'r **Ap Geiriaduron**.
2. Trafodwch y gwaith yn **Gymraeg** neu'n **Saesneg**. Peidiwch poeni os ydych chi'n gorfod defnyddio geiriau technegol yn Saesneg wrth drafod.
3. **Peidiwch poeni** os ydych chi plentyn yn cywiro eich Cymraeg. Bydd hyn yn magu eu hyder iethyddol nhw.
4. Anogwch eich plentyn i wirio ei atebion drwy ddefnyddio **Cysill ar-lein**.
5. Awgrymwch i'ch plentyn lawrlwytho'r ap yma ar ei ffôn Android, iPad neu iPhone am ddim. Fe fydd yn rhoi'r eirfa gywir yn Saesneg ac yn Gymraeg iddo ar flaenau ei fisedd.

Negeseuon gwahanol yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg.

Canlyniad

Cafwyd adborth gadarnhaol ar yr adnodd ac fe ofynnodd Cronfa Glydwr, a oedd wedi cyfrannu tuag at y gwaith argraffu cychwynnol, i ni eu rannu gyda'r holl gynghorau sir eraill. Gofynnwyd y WLGA wneud hyn ar ein rhan ac fe rannodd WLGA yr adnodd gyda Rheolwyr y Consortia Gwella Ysgolion yn ogystal. Yn dilyn hyn, cysylltodd Sir Fflint a Chastell Nedd Port Talbot gyda ni i gael caniatâd i ail-greu'r ddogfen ar gyfer eu defnydd sirol nhw. Aeth ein adran graffeg ni, felly, ati i osod logos y ddwy sir ar fersiynau newydd o'r ddogfen fel eu bod yn gallu efelychu ein gwaith heb unrhyw gost o gwbl iddynt hwy.

I'r Dyfodol

Y cam nesaf yw i ailgydio mewn dosbarthu copiâu caled o'r llyfryn hwn ac archwilio posibiliadau o'u rannu ymhellach yn enwedig wrth symud yr ysgolion ar hyd y continwmm iaith yn unol â'r CSGA. Ni ddatryswyd chwaith y mater o gynnig mynediad i'r ddogfen hon ac eraill wrth i aelodau o'r cyhoedd geisio am le mewn ysgol ar lein. Bydd angen archwilio'r posibiliadau hyn yn ystod 21-22.

Cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi

Yn gyffredinol, parhaodd y Gymraeg yn flaenoriaeth strategol i'r Cyngor Sir yn ystod y flwyddyn er gwaetha'r newid cyfeiriad mawr ym mlaenoriaethau'r gwasanaethau a ddarparwyd. O safbwynt corfforaethol, gwnaed gwaith ymarferol i sicrhau fod y broses o ystyried effaith y Gymraeg ar benderfyniadau polisi a phrosiectau newydd yn glir i reolwyr drwy gynnwys yr ystyriaethau hyn yn Nheclyn Asesu Effaith newydd y Cyngor.

Rhodddwyd sylw penodol i'r Gymraeg ac i'r Safonau mewn templed i reolwyr oedd i'w gwblhau wrth i wasanaethau ddod nol yn fyw yn dilyn y cyfnodau clo. Roedd yn rhaid i bob Rheolwr Gwasanaeth gwblhau'r templed er cymeradwyaeth y pwyllgor aur a oedd yn cael ei gadeirio gan y Prif weithredwr.

Rhodddwyd pwyslais penodol a chadarn ar gael effaith gadarnhaol ar ddefnydd y Gymraeg yn y ddogfen bolisi datblygu economaidd, 'Symud Sir Gâr wledig ymlaen' gan wneud yn siŵr fod y nod o ddatblygu'r economi law yn llaw â'r Gymraeg yn flaenoriaeth ar gyfer ein hardaloedd gwledig. Mae'r adroddiad y cydnabod, ein 'diwylliant unigryw sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg, sydd wedi cybblethu â bywyd cymunedol yn y rhan hon o Gymru ers canrifoedd'. Ac mae'n nodi y bydd yn 'rhoi pwyslais ar greu swyddi a chyfleoedd busnes wrth wraidd y strategaeth adfywio hon fel y gallwn gadw ein pobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin ac annog y rhai sydd wedi gadael y sir i ddatblygu eu doniau mewn mannau eraill i ddychwelyd a'n helpu i dyfu ein heconomi'.

Rhodddwyd sylw o'r newydd i'r Gymraeg wrth baratoi dogfennau tendro newydd *Dechrau'n Deg* ar gyfer caffael gofal plant ar gyfer y cyfnod nesaf. Gosodwyd amodau mwy amlwg a mwy clir i ganolfannau gofal plant ar yr angen i fedru darparu'n Gymraeg. Dilëwyd yr amwysedd oedd yn yr hen fanyleb tendro gan ddisodli'r term 'darpariaeth dwyieithog' gyda'r termau 'darpariaeth Gymraeg' a 'darpariaeth Gymraeg a Saesneg'. Golyga hyn fod pob darparwr yn gorfod dangos y gallu naill ai ddarparu gofal yn Gymraeg neu yn Gymraeg a Saesneg yn gyfochrog yn hytrach na bod modd darparu gofal cyfrwng Saesneg gydag elfennau o Gymraeg a'i glustnodi'n 'ddwyieithog'. Nodwyd y byddai'n rhaid i bob lleoliad;

- Darparu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg a chael digon o staff â sgiliau Cymraeg i ddarparu gweithwyr allweddol cyfrwng Cymraeg i blant sy'n dymuno eu cael. Dylai lleoliadau ystyried Cymraeg Lefel 3 man lleiaf, yn feincnod ar gyfer sgiliau Cymraeg digonol,
- Bod â'r modd i gyfathrebu â theuluoedd drwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant,
- Bod â deunyddiau dwyieithog ar gyfer hyrwyddo diwylliant a thraddodiadau Cymreig a gallu darparu ysgogiad gweledol cyfrwng Cymraeg yn y lleoliad yn ogystal â chyfarwyddiadau/ arwyddion Cymraeg,
- Datblygu sgiliau Cymraeg pob plentyn sy'n derbyn gofal plant,
- Meddu ar ddeunyddiau addas ynghylch dewisiadau iaith ysgolion cynradd lleol fel y gall plant barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg pan fyddant yn dechrau addysg ffurfiol.

Gwnaed gwaith blaengar a thrwyadl i sicrhau ystyriaethau digonol o'r Gymraeg wrth ddatblygu' Cynllun Datblygu Lleol newydd. (Gweler astudiaeth achos 6).

Astudiaeth Achos 6: Cynllun Datblygu Lleol

Cefndir

Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn paratoi ei Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLI) a fydd, o'i fabwysiadu, yn ddogfen y bydd yr holl gynigion defnydd tir a datblygu yn cael ei hasesu yn ei herbyn tan ei ddyddiad gorffen yn 2033. Wrth baratoi'r CDLI, rhaid ei asesu ar gyfer yr effeithiau a ragwelir ar y Gymraeg, gan gynnwys y polisïau a'r safleoedd a ddyrannir i'w datblygu oddi mewn iddo.

Wrth baratoi'r CDLI, rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng sicrhau bod digon o dir ar gael yn y manau cywir i ddiwallu anghenion tai a chyflogaeth ei drigolion ac i gynnal y cymunedau lleol heb ddyrannu i'r fath raddau fel y byddai'n cael effaith andwyol ar hyfywedd y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin.

Nid oes dull safonol o gynnal asesiad o'r fath ac roedd pryderon ynghylch cadernid a chywirdeb y fethodoleg presennol a'r risgiau y byddai'r rhain yn eu cyflwyno. Ar ben hynny, mae dealltwriaeth o'r berthynas rhwng y Gymraeg a chynllunio defnydd tir yn gyffredinol yn wan, gyda chyfran sylweddol o'r dystiolaeth sydd ar gael yn anecdotaid ac yn amhendant.

Datrysiad

Aeth Cyngor Sir Gâr ati i ddod o hyd i fethodoleg addas y gellid ei defnyddio i asesu effeithiau disgwylidig y CDLI ar y Gymraeg, a fyddai'n cydymffurfio â gofynion polisi deddfwriaethol a cenedlaethol. Byddai angen i'r asesiad hefyd ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth a fyddai'n ddigon cadarn i wrthsefyll archwiliad gan arolygydd cynllunio annibynnol ac unrhyw heriau gan drydydd partïon.

Comisiynodd y Tîm Blaengynllunio, gan gydweithio â Swyddogion Polisi Corfforaethol, yr ymgynghorwyr *laith* a *Burum* i baratoi methodoleg addas ac i asesu effaith disgwylidig y CDLI drwy gydol y broses o'i baratoi, gan asesu'r elfennau canlynol: lefel y twf a nodwyd gan y CDLI; dosbarthiad gofodol y datblygiad; pholisïau'r Cynllun; a'r safleoedd a ddyrannir i'w datblygu.

Canlyniad

Gan uno eu harbenigedd mewn cynllunio ieithyddol a chynllunio defnydd tir, cynhyrchodd *laith* / *Burum* fethodoleg addas ar gyfer asesu'r CDLI. Mae'r gwaith a wnaed hyd yma wedi cynhyrchu asesiad o fersiwn Adneuo'r CDLI ac mae ar gael ar dudalen we'r CDLI:

[Datblygu sylfaen o dystiolaeth \(llyw.cymru\)](#).

Daeth yr asesiad a gynhaliwyd i'r canlyniad fod y Strategaeth dwf yn debygol o gael effaith 'negyddol fach' ar y Gymraeg a'r Strategaeth Ofodol yn debygol o gael effaith 'gadarnhaol fach'. Gwnaeth yr ymgynghorwyr argymhellion ar sut i gyfyngu ar yr effeithiau negyddol, a oedd yn cynnwys adolygiad a diwygiadau i bolisïau *laith* Gymraeg y CDLI. Ymgorfforwyd y diwygiadau a awgrymwyd yn y Cynllun Adneuo cyn ei gyhoeddi.

Cyflwynwyd y gwaith a wnaed hyd yma a chynnwys yr Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg i Fforwm Strategol Sirol y Gymraeg er eu gwybodaeth, a rhagwelir y bydd cyfleoedd pellach i ymgysylltu â grwpiau Cymraeg.


I'r Dyfodol

Wrth i'r CDLI barhau i esblygu, bydd ei effeithiau'n parhau i gael eu hasesu i sicrhau bod y Cynllun yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gyfrannu'n gadarnhaol at fywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg.

Bydd y ffocws yn awr yn symud tuag at fynd i'r afael yn gyntaf ag unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sy'n parhau i fod yn aseiad y CDLI, ac yn ail, gweithredu'r CDLI. Mae hyn yn debygol o gynnwys dull cydweithredol o gynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol. Bydd y CCA yn rhoi canllawiau pellach i ddatblygwyr ar sut i fodloni gofynion polisi'r CDLI ac yn gosod y fframwaith ar gyfer sut y dylid ystyried yr iaith yn ystod y cam o gyflwyno ceisiadau cynllunio.

Er bod cryn dipyn o waith arloesol a blaengar wedi'i wneud, mae nifer o heriau'n parhau, a bydd y Gymraeg yn parhau i fod yn ystyriaeth yn y system cynllunio defnydd tir yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol agos.

Cwynion a dderbyniwyd 2020/21



Isod ceir rhestr o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2020/21 ynghyd â chrynodeb o'r gweithredu yn dilyn eu derbyn.

Derbyniwyd cwynion yn uniongyrchol i'r Cyngor a thrwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Ymdriniwyd â'r cwynion uniongyrchol yn unol â gweithdrefn gwynion y cyngor.

| Cwyn Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Ymateb a gweithredu |
|---|--|
| 1. Cwyn ynglŷn ag arwyddion ffordd ar y B4317 rhwng Trimsaran a Phen-bre | <ul style="list-style-type: none">• Cynhaliwyd Ymchwiliad gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg• Nodwyd bod yr arwyddion yn rhai hanesyddol (mewn lle cyn y Safonau) ond gwnaed trefniadau er mwyn gosod arwyddion newydd |
| 2. Cwyn ynglŷn ag amlen dychwelyd rhagdaledig uniaith Saesneg gan y Tîm Budd-daliadau | <ul style="list-style-type: none">• Esboniwyd nad oes modd i ni fel cyngor ddefnyddio cyfeiriad dwyieithog gan nad yw'r Post Brenhinol yn ein caniatáu i'w cynnwys. Nifer gyfyngedig o eiriau y gellir eu defnyddio wrth osod y cyfeiriad• Derbyniwyd arweiniad gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg y dylid defnyddio cyfeiriadau cyfrwng Cymraeg yn unig at y dyfodol |
| 3. Cwyn ynglŷn â gohebiaeth uniaith Saesneg gan gartref gofal 'Barchester'. Honnai'r achwynydd fod y cyngor yn rhoi cyfeiriadau cartrefi ei drigolion i gwmnïau preifat megis 'Barchester', ac felly fod perthynas rhwng y cwmnïau a'r cyngor sy'n creu amheuaeth fod y cwmnïau yn cyflenwi gwasanaeth ar ran y cyngor. | <ul style="list-style-type: none">• Esboniwyd nad oes gan y cyngor berthynas waith ffurfiol neu drefniant rhannu gwybodaeth gyda chartrefi gofal 'Barchester'.• Yr unig bosibilrwydd a nodwyd yw ein bod yn ymwybodol bod rhai sefydliadau sy'n prynu'r gofrestr Etholiadol wrth y cyngor yn gwerthu'r manylion ymlaen at gyrff trydydd parti eraill – does gennym ni ddim rheolaeth o gwbl o hyn fel cyngor a does dim modd i ni osod amodau na thelerau ar unrhyw werthiant o'r gofrestr. |
| 4. Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â'r ffaith iddo ddanfôn llythyr at yr Adran Dai ym mis Chwefror eleni, ond iddo dderbyn galwad nôl gan aelod staff o'r adran yn y Saesneg | <ul style="list-style-type: none">• Mae Ymchwiliad ar waith gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg |

-
- | | | |
|----|---|--|
| 5. | Cwyn yn ymwneud â e-bost Saesneg gan a dogfen Saesneg "Housing Options Plan". | <ul style="list-style-type: none"> • Esboniwyd bod y tîm wedi methu cysylltu â'r unigolyn dros y ffôn ac wedi danfon gohebiaeth ddwyieithog ato. • Wrth i'r unigolyn gysylltu nol, cynigiwyd cyswllt Cymraeg iddo, ond fe barhaodd â'r sgwrs yn Saesneg. • Cynhaliwyd Ymchwiliad gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. • Dyfarnwyd bod y Cyngor wedi torri'r Safonau o ran darparu gwasanaethau a gofynnwyd i'r Cyngor gymryd camau pwrpasol er mwyn datrys hyn. • Mae'r camau gweithredu yn cynnwys atgoffa holl staff y cyngor o'r Safonau ynghylch gohebu a ffurflenni safonol y cyngor |
| 6. | Cwyn gan unigolyn ynglŷn â'r ffaith iddo dderbyn e-bost uniaith Saesneg 'Council Tax Breakdown' gan Adain Treth y Cyngor, Cyngor Sir Gaerfyrddin trwy law gweithiwr cymorth tenantiaeth Y Wallich | <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynwyd y gwyn drwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. • Esboniwyd bod y cyngor yn darparu copi cwbl ddwyieithog o fanylion Treth y Cyngor i bob aelwyd. • Yn sgil y ffaith bod yr unigolion yn derbyn cymorth tenantiaeth, roedd yr e-bost a gyfeiriodd ato yn y gwyn yn sgwrs rhwng dau swyddog, nid neges gyhoeddus. • Penderfynodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i beidio parhau gyda'r achos. |
| 7. | Cwyn gan aelod o'r cyhoedd am y ffaith iddo dderbyn llythyr uniaith Saesneg gan y Cyngor yn ymwneud â 'Prevention of Damage by Pests Act 1949, Section 4/ Environmental Protection Act 1990, Section 80'. | <ul style="list-style-type: none"> • Nodwyd bod yr achwynydd wedi bod mewn cyswllt â'r swyddog priodol / y tîm Diogelu'r Amgylchedd i gwyno, ac wedi derbyn ein ymddiheuriad diffuant am y camgymeriad wrth ddanfon llythyr uniaith Saesneg ato. • Darparwyd copi cyfrwng Cymraeg o'r llythyr a crëwyd cofnod penodol o ddewis ieithyddol yr unigolyn ar system y tîm Diogelu'r Amgylchedd. • Cyflwynwyd y gwyn i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Cynhaliwyd Ymchwiliad a gosodwyd camau gweithredu i gyd-fynd ag achos arall o ran y Safonau Darparu Gwasanaethau. |
| 8. | Cwyn gan unigolyn ynglŷn â'r ffaith iddo dderbyn e-bost uniaith Saesneg o gyfeiriad BlueBadge@carmarthenshire.gov.uk | <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynwyd y gwyn gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Cadarnhawyd y byddent yn ymchwilio i'r gwyn hon law yn llaw a'r gwyn isod o ran Tocynnau Teithio. |
-

| | |
|---|--|
| <p>Roedd yr e-bost yn ymwneud a chofrestru am fathodyn glas.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Ymchwiliad yn parhau |
| <p>9. Cwyn gan unigolyn ynglŷn â'r ffaith iddo dderbyn llythyr uniaith Saesneg 'Concessionary Travel Pass' a ffurflen uniaith Saesneg 'Disabled Eligibility Assessment Form'</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynwyd y gwyn gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a penderfynwyd ymchwilio i'r achos. • Mae'r cyngor wedi darparu tystiolaeth ynglŷn a'r gwyn a'r camau a oedd mewn lle i gefnogi'r unigolyn • Mae'r Ymchwiliad yn parhau |
| <p>10. Cwyn gan unigolyn ymwneud â llythyr uniaith Saesneg a dderbyniwyd gan unigolyn drwy Llesiant Delta Wellbeing</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynwyd y gwyn gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a penderfynwyd ymchwilio i'r achos. • Dyfarnwyd bod y Cyngor wedi torri'r Safonau o ran darparu gwasanaethau a gofynnwyd i'r Cyngor gymryd camau pwrpasol er mwyn datrys hyn. • Yn dilyn derbyn yr adroddiad terfynol gan Swyddfa'r Comisiynydd, bydd y tîm Polisi a Phartneriaeth yn cydweithio gydag Llesiant Delta Wellbeing er mwyn cwblhau'r camau gweithredu |

Trosolwg o Ddysgu Cymraeg a Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

Ar y cyfan, rhoddodd y cyfnod clo fwy o gyfleoedd nag o rwystrau i ni ddatblygu sgiliau Cymraeg ein staff. Gyda'r gallu i ddarparu gymaint mwy ar-lein a'r ffaith bod staff oedd yn methu cyflawni eu gwaith arferol yn defnyddio'r amser i ddatblygu eu sgiliau, roedd yn galonogol iawn i weld y ffigurau eleni mor iach o safbwynt dysgu Cymraeg, gyda thraean yn fwy o'n staff yn ymrwmo i gynyddu eu sgiliau Cymraeg a mil yn fwy o staff yn dilyn cyrsiau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg. Adlewyrchwyd ein gwaith caled yn hyn o beth gan wobwr a ddyrannwyd i Gyngor Sir Gâr gan *Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys Sir Gâr*, sef 'Cyflogwr Dysgu Cymraeg y flwyddyn', am y gefnogaeth a'r cyfleoedd rydyn yn cynnig ein staff i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.

Dysgu Cymraeg:

Yn fras, mae ein staff yn mynychu un o'r tri math isod o gyrsiau ffurfiol:

- Cyrsiau traddodiadol, sef cyrsiau dysgu Cymraeg y gymuned gyda'r *Ganolfan Dysgu Cymraeg*
- Cyrsiau Cymraeg Gwaith a ariennir gan y llywodraeth drwy'r *Ganolfan Dysgu Cymraeg*
- *Say Something in Welsh*

Ac o fewn y mathau yma o gyrsiau, ceir nifer o gyfleoedd amrywiol ar bob lefel o 0-5 i weddu patrymau dysgu amrywiol, gyda rhai'n dysgu mewn gwersi wythnosol o 2 i 4 awr ac eraill yn ymrwmo i wythnos ddwys er enghraifft.

O dan yr amgylchiadau eleni, darparwyd pob cwrs ar-lein. Mae ein staff wedi ymdopi yn rhagorol ag yn nodi eu bod yn hoffi'r ffordd yma o ddysgu, er eu bod yn colli'r elfen o glywed yr iaith mewn amgylchedd gwaith. Mewn ymdrech i'w cefnogi gydag ymarfer y Gymraeg yn y gwaith, cynyddwyd y nifer o staff ar gael i fod yn fentoriaid.

Daeth cyfleoedd ar gyfer cyrsiau 'Gwella'ch Cymraeg' ar gael yn chwarter olaf y flwyddyn wrth i'r ddarpariaeth hon gael ei ddatblygu o fod yn gyrsiau traddodiadol preswyl i fod yn gyrsiau rhithiol.

Yn newydd eleni, darparwyd sesiwn i reolwyr ynghlwm wrth y rhaglen Cymraeg Gwaith. Cynhaliwyd sesiwn i egluro iddynt beth oedd yn ddisgwyliedig oddi wrth y staff yr oeddent yn eu rhyddhau i ddysgu ac hefyd sut y gallen nhw gefnogi'r staff hynny gyda'u hymdrechion. Nid ydy'r staff yma wedi eu cynnwys yn y ffigurau isod gan y byddant yn cael eu cynnwys y flwyddyn nesaf wrth iddynt gwblhau'r cwrs.

Dyma ffigyrau o'n staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg 2020-2021:

| Cwrs Dysgu Cymraeg | Y lefel y disgwylir ei gyrraedd ar ôl y cwrs | Nifer sydd wedi cwblhau |
|-------------------------------------|--|-------------------------|
| Croeso a Chroeso Nôl | Lefel 1 | 96 |
| Cymraeg Dechreuwyr 1 -2 (mynediad) | Lefel 2 | 177 |
| Cymraeg Sylfaenol | Lefel 3 | 9 |
| Cymraeg Canolradd | Lefel 4 | 13 |
| Gwella'ch Cymraeg (1 wythnos ddwys) | | 8 |
| Say Something in Welsh | Lefel 1 Lefel 2 | 8 3 |
| | | 314 |
| Cyrsiau eraill | | |
| Ymwybyddiaeth Iaith (Saesneg) | | 2251 |
| Mentora | | 23 |
| Eich staff - Cymraeg Gwaith | | 11 |
| | | 2285 |

Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg:

Dyma'r ffigyrau cyrsiau'r Cyngor sydd wedi'u cwblhau drwy gyfrwng y Gymraeg drwy e-ddysgu.

| | |
|--|-------------|
| Cadeirio Gwrandawriad Disgyblu | 1 |
| Croeso i Ymwybyddiaeth Iaith | 278 |
| Cyflwyniad i Gaffael | 7 |
| Datgelu Camarfer | 94 |
| Diogelu Data (GDPR) | 189 |
| Diogelu: Ymwybyddiaeth | 19 |
| Gwytnwch Personol | 3 |
| Hylendid Bwyd | 23 |
| Iechyd Meddwl Yn y Gweithle | 108 |
| Llawlyfr i Yrwyr | 1 |
| Safonau Ymddygiad yn y Gweithle | 8 |
| Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol | 363 |
| Ymwybyddiaeth o Ofalwyr | 26 |
| | 1120 |

Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw cyrsiau cyffredinol eraill y Cyngor yn cael eu darparu yn uniaith Saesneg. Mae llawer o gyrtsiau yn cynnwys elfennau o Gymraeg ag yn rhoi cyfle i fynychwyr siarad Cymraeg. Mae Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol er enghraifft, yn sicrhau bod eu holl adnoddau'n ddwyieithog, yn croesawi pawb yn ddwyieithog ag yn apwyntio hyfforddwyr Cymraeg fel bo angen.

O rhan hyfforddiant i'r aelodau, mae'r adnoddau'n ddwyieithog. Darparwyd rhai cyrsiau yn Gymraeg a rhai'n ddwyieithog, lle darparwyd rhan o'r sesiwn yn Gymraeg a rhan yn

Saesneg. Yn ogystal, ar draws Dysgu a datblygu, cynigwyd grwpiau trafodaeth Cymraeg i'n staff yn ystod ymarferion gweithdai.

Sgiliau iaith

Dyma'r data a oedd ar y system ar ddiwedd mis Mawrth 2020

| | Nifer | Canran | | Nifer | Canran |
|---------------------------|-------|--------|-------------------------------|-------|--------|
| Dim Sgiliau Llafar | 603 | 11% | Dim Sgiliau Ysgrifennu | 1347 | 25% |
| Lefel 1 Llafar | 1657 | 31% | Lefel 1 Ysgrifennu | 1426 | 27% |
| Lefel 2 Llafar | 856 | 16% | Lefel 2 Ysgrifennu | 776 | 15% |
| Lefel 3 Llafar | 614 | 12% | Lefel 3 Ysgrifennu | 548 | 10% |
| Lefel 4 Llafar | 520 | 10% | Lefel 4 Ysgrifennu | 474 | 9% |
| Lefel 5 Llafar | 1074 | 20% | Lefel 5 Ysgrifennu | 730 | 14% |
| Cyfanswm | 5324 | | Cyfanswm | 5301 | |

Dyma ffigurau 2020-21:

| | Nifer | Canran | | Nifer | Canran |
|---------------------------|-------|--------|-------------------------------|-------|--------|
| Dim Sgiliau Llafar | 664 | 12% | Dim Sgiliau Ysgrifennu | 1347 | 25% |
| Lefel 1 Llafar | 1701 | 31% | Lefel 1 Ysgrifennu | 1445 | 27% |
| Lefel 2 Llafar | 859 | 15% | Lefel 2 Ysgrifennu | 779 | 14% |
| Lefel 3 Llafar | 637 | 11% | Lefel 3 Ysgrifennu | 585 | 11% |
| Lefel 4 Llafar | 545 | 10% | Lefel 4 Ysgrifennu | 495 | 9% |
| Lefel 5 Llafar | 1148 | 21% | Lefel 5 Ysgrifennu | 792 | 14% |
| Cyfanswm | 5554 | | | 5443 | |

Mae gennym y cofnod iaith uchod allan o 8604 o aelodau staff (2020-21). Fodd bynnag, mae'r ffigwr hwn yn cynnwys 2460 o staff mewn ysgolion nad oes gennym gofnod iaith ar eu cyfer.